414
4

TALHAIARN.

GAN

TREBOR ALED.

LONDON:
ARTHUR H. STOCKWELL,
29, LUDGATE HILL, E.C.

Presented to
The Library
of the
University of Toronto
by
Professor Fred Norris Robinson

1/6

TALHAIARN:

GAN

TREBOR ALED.

"TREBOR ALED."

T1453
.Yjo
Jones, R

TALHAIARN:

GAN

TREBOR ALED

(Awdwr "Fy Lloffyn Cyntaf;" "Cofiant Thomas Jones;" Awdl, "Geraint ac Enid;" "Pleser a Phoen").

Cyhoeddedig ar y cyntaf gan "Gymdeithas y Brythonwyr," Llundain, 1901. Ail-argraphwyd drwy ganiatad y Gymdeithas gan yr awdwr yn y flwyddyn 1905.

535894
10.3.52

TRYDYDD ARGRAPHIAD.
[London, A. M. Stockwell]
1916.

HARVARD COLLEGE LIBRARY
HARVARD COLLEGE
MAY 29 1939
RELEASED
LIBRARY
Morris Gray fund

CYFLWYNEDIG I

PRICE MORRIS, Ysw., M.D.,

COLWYN,

UN O FRODORION TWYMGALON

"Y LLAN AR FIN Y LLI,"

AC UN O EDMYGWYR CAREDIG TALHAIARN.

Traddodwyd yr Annerchiad hwn o flaen "Cymdeithas y Brythonwyr," yn 63, Chancery Lane, Llundain, Rhagfyr 12fed, 1901.

Yn Aberaeron, Awst 10fed, 1908.

Yn Machynlleth (ger bron y Cymreigyddion), Chwefror 2il, 1910.

Yn 38, John Bright Street, Birmingham, Rhagfyr 18fed, 1915.

DR. PRICE MORRIS.

RHAGAIR.

WRTH barotoi'r Annerchiad hwn ar gyfer y wâsg, sylwais fod Talhaiarn, yn ei gyfrol gyntaf, wedi dweud fel y canlyn, yn niwedd ei ysgrif ar Lanfaîr-talhaiarn, ei fro enedigol :—

> "Ysgrifiais yr hyn a ysgrifiwyd mewn yspryd addfwyn a chariadlawn, nid er hunan-glod, ond yn hytrach i dynnu sylw y wlad at y fangre a garwyf. Efallai, yn mhen haner canrif neu ganrif, y bydd i rywun ddweud gair neu ddau am danaf finnau."

Pwy bynag arall sydd wedi dweud gair neu ddau am dano, mae ei brophwydoliaeth wedi dod i ben, pe bai dim ond yr hyn a ysgrifenwyd yma am dano ; ond prin y dychmygai "Tal," yn ddiau, y buasai "gair neu ddau am dano" yn rhedeg i'r trydydd argraphiad, ond felly y digwydda gyda hyn o drafodaeth.

Mae y ffaith fod galw am drydydd argraphiad o'r ddarlith yn ddigon o reswm dros alw sylw y darllenydd at y cyfryw.

Diolchaf i bawb fu mor garedig gyda'r ymdrech fechan hon o'm heiddo yn y gorphennol, a chroesawaf yr un gefnogaeth etto mlaen, er na fwriedais ar y cyntaf argraphu ond nifer bychan o gopiau o'r gwaith y tro hwn, ar gyfer personau oeddynt wedi ei archebu eisoes, pa rai fethasant ei gael yn flaenorol, am fod yr argraphiadau eraill wedi rhedeg allan o argraph. Gan ofalu hefyd am ychydig gopiau ar gyfer rhai o'r llyfrgelloedd Cymreig, ac i ychydig gyfeillion personol. Fodd bynag, wedi ystyriaeth bellach, penderfynwyd nad doeth argraphu llai na phum' cant o gopiau.

Yn ffyddlawn iawn,

Yr eiddoch,

R. JONES (*Trebor Aled*).

Talybont, Ceredigion,
Ionawr 7fed, 1916.

RHAI O SYLWADAU'R CYHOEDD AR Y DDARLITH.

"*Celt Llundain.*"

"Trebor Aled oedd arweinydd y noson, ac yn wir, arwr y cyfarfod. Traddododd annerchiad bywiog i'r aelodau ar Talhaiarn a'i weithiau. Cadeiriwyd gan Evan Griffiths, Ysw., Chelsea, ac ymysg y presenolion yr oedd William Jones, Ysw., A.S., Robert Williams, Ysw., F.R.I.B.A., L.C.C., T. V. Roberts, B.Sc., ac eraill."

"*Seren Cymru.*"

"Ceir syniad pur gywir am y dyn a'i athrylith mewn modd trefnus, iaith gymeradwy, a syniadau neillduol o barchus a gwerthfawrogol. Yr oedd eisiau darlith deilwng yn y man y traddodwyd hon, ac y mae y ddarlith a'r cynnulliad yn taro eu gilydd yn ardderchog."

"*Seren Gomer.*"

"Bydd yn dda gan laweroedd gael delweddiad mor fyw o wynebpryd un oedd unwaith yn rheng flaenaf beirdd a cherddorion Cymru. Y mae cynwys y llyfryn

wedi ei gyfleu yn gryno a diwastraff, y difyniadau yn nodweddiadol, a'r iaith a'r arddull yn lân a swynol. Dylai llyfrynnau tebyg i hwn, yn cadw'n fyw enwogion Cymru, ac yn llenwi meddyliau yr ieuainc â'u nodweddion a'u rhinweddau, gael lle ar bob aelwyd yng Nghymru."

J. E. Oldfield, Esq., J.P.. Bettws-yn-Rhos.

"Let me thank you for your address on 'Talhaiarn,' which I have read with great interest. I well remember his geniality, kindness, and *savoir-vivre*."

Elias Jones, Esq., J.P., Llandudno.

"Very interesting reading."

D. Emlyn Evans, Ysw. (yn y "Cerddor").

"Dyddorol a darllenadwy."

Mrs. Cecil Popham, Arun House, Horsham.

"Yr ydwyf wedi ei ddarllen gyda llawer o ddyddordeb."

Rev. D. R. and Mrs. Jones, Weston Rhyn.

"We found it most interesting. It is gratifying to know that Talhaiarn is affectionately remembered by his countrymen. Will you please send six copies?"

Mr. Tom Owen, Hafod Elwy.

"Yn onest ddiweniaeth gallaf ddweud ei fod yn ddyddorol iawn, ac yn union yr hyn allesid ddisgwyl ar y bardd gwladgar a glân ei galon."

Parch. J. Symlog Morgan, Castell-Newydd-Emlyn.

"Y mae 'Tal' yn fyw ger bron y darllenydd."

Professor T. Witton Davies, B.A., Ph.D., D.D., Bangor.

"I read your lecture on 'Talhaiarn' directly it came with immense pleasure and profit. That lecture ought to be bought by the thousands. I knew nothing of Talhaiarn before; now I know him, and something of his work, thanks to Trebor Aled."

Sir J. Herbert Roberts, Bart., M.P.

"Gadewch i mi ddiolch i chwi yn gynhes am hanes ac athrylith Talhaiarn. Cefais bleser mawr wrth ei ddarllen."

R. Peregrine, Esq., Rugby Avenue, Neath.

"Many thanks for your work on Talhaiarn. The only fault that I have to find with it is, that there is not enough of it. . . . . I have enjoyed reading it very much; I liked old 'Tal' (as he used to be called) immensely. I saw and heard him in Swansea National Eisteddfod in the year 1863, and in Carmarthen, 1867. What a splendid conductor and platform

speaker he was! Some of the speeches in his volumes are very fine, especially the one delivered at Rhuddlan Eisteddfod very many years ago. He was also an excellent singer. I heard him and 'Owain Alaw' singing 'penillion' together several times. 'Tal' was true to nature, and never better than when composing and singing songs. And what a racy writer he was in both languages! Is it too much to hope that a new edition of his works will soon be published? Good old 'Tal!' I knew him well! A grand Welshman, true poet, natural, clever, and witty."

"Dyna lûn bardd doniol, na bu—i'w gael
Ffraethach gŵr yn Nghymru;
Mae'n dàl y'mhlith mwyn deulu,
Enwog iawn yr awen gu."

—*Risiart Ddu o Wynedd.*

"TALHAIARN."
(Yn anterth ei ddydd.)

TALHAIARN GAN RAI O'I GYDOESWYR.

"CYMRO yn caru Cymru, Cymro, a Chymraeg, ydyw Talhaiarn; a cherir ef gan y rhai a gawsant yr hyfrydwch o gymdeithasu âg ef fynychaf. Y mae'n ysgolhaig campus, mewn sefyllfa barchus, ac yn un na all edrych ar Gymro mewn gwasgfa heb ei gynnorthwyo'n haelfrydig.

"Ei fedrusrwydd areithyddol sydd fawr, ond iddo gael pwnc, lle, ac amgylchiadau cyfattebol i'r bywiogrwydd â'r hwn yr olrheinia efe ei destyn. Ei lais canu sydd fwynaidd, ei ffraethineb a siriola bob cyfeillach lle byddo; ac os oes rhyw un heb ei barchu, rhaid fod yr un hwnw heb ei adnabod.

"Ymddifyra Talhaiarn mewn Hynafiaeth, a mynych yr ymollynga i gyfansoddi dyrifiau o duedd addysgiadol mewn dull a duedda un i wenu, ond medr ef gysylltu meddyliau mawreddog wrth eu gilydd mewn modd cywrain; ac un siampl o'i fedrusrwydd yn hyny yw yr Awdl ar y Greadigaeth."

—GOLYGYDD "Y WAWR."

(*Swyddfa D. Evans, Caerdydd gynt*).

"Daliai sylw ar dlysolion—anian
Yn ei holl amrywion;
Ond Aeres Eden, dirion,
Oedd yn wledd i'w awen lon.

"Ymlenwodd i'w molianu—â chain serch,
Nes oedd beirdd yn gwenu,—
Wrth wel'd bardd, llonfardd pob llu
Gwedi 'i iawn lygad-dynu.

"Yn eigion ei galon gu,
Cariad oedd yn cordeddu.

"'Byd da,' 'n llawn 'bwyd a diod,'
Arian ac aur yn ei gôd.

"Esgyned mewn rhwysg union—i'r gadair,
Gwedi trechu 'r pigion;
Oferedd mwy i feirdd Môn
Fyth heriaw y fath wron."

—*Ioan Madog.*

"Tra perchir talent nodedig blentyn,—
Athrylith Natur, bûr,—a thra Berwyn!
Enw ein hanwyl Dalhaiarn ennyn
Fynwes addoliant fewn oesau i ddilyn;
A'i yni grêf ef a fyn—fri'r dalaeth,
A'i chariad helaeth tra chwery telyn.

"Amrywiaeth odiaeth ei amgyffredion
Yn amlwg iddo wna demlau gwyddon:
Doniau ac elwch ordaniai 'i galon,
Awen, arabedd, hyawdledd prydlon;
Gwîn newydd ei ganeuon—ogleisia
Archwaeth ei Walia tra chwŷth awelon."

—*Gwilym Cowlyd.*

"Mae y tafod ffraethlym wedi tewi am byth, y mae y llaw a fu yn ysgrifenu teimladau tyneraf y genedl, mewn caneuon melusber, wedi oeri yn yr angeu, y mae y galon a fu yn anadlu gwladgarwch diledryw, mewn pennillion melodaidd, wedi peidio a churo am byth.

"Talhaiarn oedd pobpeth bron yn myd y beirdd. Byddai ei enw ymhob cylchgrawn a phapur bron, ac yr oedd melusder ei odlau yn *demandio* iddo anrhydedd a safle uchel yn mysg ei frawdoliaeth farddol.

"Pe buasai cadair yn cael ei rhoddi am gân wladgarol, neu ryfel-gan, neu gân serch, neu gân ogan, 'rwy'n llêd sicr mai Talhaiarn a gawsai yr anrhydedd o eistedd ynddi.

"Daeth yn llêd ieuanc, mewn cymhariaeth, i sylw fel archadeiladydd o gryn alluoedd. Aeth ymaith i Loegr, lle y daeth yn fuan i fri mawr, fel un o alluoedd anghyffredin yn y gelfyddyd hon. Gellir canfod yn hawdd ei fod yn ben y rhestr fel *architect*, pan y dywedir ei fod ef yn un o'r rhai oedd yn cynnorthwyo Syr Joseph Paxton i weithio allan ei gynllun ardderchog ar y Palas Grisial cyntaf, yn 1851.

"Caiff ei lwch a'i goffadwriaeth huno mewn distawrwydd pruddaidd, a diamheu y caiff ei ganeuon eu canu—

'Tra rhôd Elwy trwy rô y dolydd.'"

—*Mynyddog* (*yn "Y Geninen."*)

"Yr oedd Talhaiarn a Mynyddog yn deall anhebgorion barddoniaeth ganeuol yn lled drwyadl, fel y prawf eu gweithiau yn y cyfeiriad hwn. Sylwer ar "Hen Walia yw f' Anwylyd," gan Talhaiarn, sylwer hefyd ar "Mae'r Haul yn dod," gan Mynyddog. Deallai y ddau awdwr a enwyd, ac yn enwedig Talhaiarn, y matter hwn yn dda."

—*Ceulanydd* (*yn ei draithawd ar "Ceiriog."*)

"Talhaiarn oedd yr arweinydd Eisteddfod goreu a welsom erioed. Yn Eisteddfod Dinbych, 1860, y gwelsom Talhaiarn gyntaf, efe oedd yr arweinydd. Yr oedd y pryd hwnw ychydig dros haner cant oed; ei wallt tua'r godre yn dechreu britho, â chap du o felfed am ei ben yn cuddio coryn wedi moeli. Dyn ydoedd o faintioli canolig, llydan, ysgwyddog. Hobiai hyd y llwyfan; ond er ei fod yn dyoddef yn drwm gan y droedwst, methem ddyfalu pa un ai efe ynte Syr Watkin, y cadeirydd, a edrychai siriolaf.

"Ond ei ganeuon,—y mae arogledd maes o flodau arnynt hwy; neu, a newid y gymhariaeth, y maent mor beroriaethus a chân yr ehedydd pan yn codi o'i fwth gweiriog ar fore haul tesog yn Mehefin. Nid oes angen cysylltu lliaws o honynt â miwsig, canys y mae eu hyseinedd hwy eu hunain yn fiwsig. Hyd oni chododd Ceiriog, nid oedd neb yn Nghymru i'w gystadlu â Thalhaiarn am gân bert, awenyddol Gymreig. Deallai ef elfenau cerddoriaeth yn well na'i gyd-fardd o Gaersws; ac yr oedd wedi derbyn manteision i adnabod llafargân trwy ei hîr drigiant yn Llundain, na chafodd Ceiriog mohonynt. Er fod lliaws o'i ganeuon wedi eu cyfansoddi, fel y dywedir, *to order*, etto llifant mor naturiol a dwfr yr afon.

"Efe, mae'n ddiau, oedd prif fardd y gân yn Nghymru rhwng y blynyddoedd 1850 ac 1860. Cyfansoddodd ugeiniau o ganeuon penigamp ar gais ac at wasanaeth prif gerddorion Cymreig ei oes, megis,—Pencerdd Gwalia, Brinley Richards, Owain Alaw, &c.

"Adwaenai Tàl nôd-angen cerdd i'r dim; ac yr oedd cerddoriaeth yn y gân cyn y gollyngai hi o'i law i'r cerddor."

—*Llyfrbryf* (*yn "Y Geninen."*)



"TALHAIARN."
(Yn niwedd ei oes.)

"Tymhestl ar genedl Gwynedd—wyrodd ben
Fardd y beirdd o'i orsedd;
Mae Gwalia 'n ddiymgeledd,
A dyn y byd yn y bêdd.

"Tàl anwyl, wyt dawel hynod—mewn bêdd,
A minau bob diwrnod
Dan gwmwl wrth feddwl fod
Dyn o d'awen dan dywod.

"Cariad at ei wlad bert, lon,—lyw doniol!
Daniai ei bennillion;
Collai Tàl waed ei galon,
A mwy na'i waed er mwyn hon.

"Ow! priddwyd campwr addien—ac eilun
Gwalia a Cheridwen;
Tan *Yw*, ca'dd plentyn awen
Wely du yn ei wlad wen."

Dewi Hafhesp.

EI YMWELIAD AG EBEN FARDD, CLYNOG.

"DAETH Talhaiarn, rhad arno,
Tua Chlynog; fryniog fro:
Gwelwn ŵr o bryd glân iawn,
Digystudd, dwyrudd diriawn:
A thro olwyn athrylith
Yn ei lygaid nid rhaid rhîth:
A'i wallt trwm yn hollt yr iâd,
O wawr wineu 'n ei raniad:
Ei farf laes a fwriai flew
I'w eofndal fron lyfndew:
A'i osodiad fel sawdwr
Oll yn ddel a lluniaidd ŵr..

"Mae hwn yn fwyn mewn iawn foes,
Ni fyn i'w elyn waewloes:
Dyn yw hwn edwyn anian,
A thôn moes ei thannau mân;
O'i rîn bêr mae 'i air yn baill,
A'i law'n gafael yn gyfaill:
Mae 'n ganu, mae 'n garu i gyd,
Yn doddion o ddedwyddyd.

"Dyn yw 'Tàl' a dawn teilwng,
O nôd têg, Awen a'i twng;
Ei mab yw, mae ei bywyd
A'i nôdd hael ynddo o hyd."

—*Eben Fardd.*

EI GÔFGOLOFN.

("Îs yr ywen ddu ganghenog.")

TALHAIARN.

YN wyneb y tystiolaethau cryfion ddifynwyd, a'r hyn a wyddom ein hunain am y gwrthddrych uchod, hawdd y gallwn ddywedyd nad oes yn myd llenyddiaeth y Genedl Gymreig ond ychydig iawn o enwogion y gorphennol a'u henwau yn fwy hyspys nac enw yr hwn y mae genym yr hyfrydwch o geisio sôn am dano yma.

Brodor oedd ein gwrthddrych o Lanfairtalhaiarn, Sir Ddinbych. Ganwyd ef Ionawr 19eg, 1810, ac yn yr un gymydogaeth y bu farw, ar yr 17eg o Hydref, 1869, yn bedair-ar-bymtheg a deugain mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion marwol y'mynwent y "Llan ar fîn y lli," chwedl ef ei hunan, sef mynwent eglwys plwyf Llanfairtalhaiarn; a gosodwyd colofn hardd i nodi "man fechan ei fêdd." Ar y golofn ceir yr englynion canlynol, y'nghyda'r manylion arferol a fyddont ar feini beddau yn gyffredin :—

"Is y golofn ddŵys gwelwch—yr huna
Gŵr anwyl mewn heddwch;
Awdwr cân a diddanwch
Ei wlad, anrhydedd i'w lŵch.

"Y maen hwn guddia mewn hêdd—brofedig
Brif-awdwr o Wynedd;
Ow, rifo bardd mor ryfedd,
Addfwynaf ŵr, i ddwfn fêdd.

"Ei barodlawn bêr hyawdledd—a'i fyth
Gyfoethog arabedd,
A'i gân gŵyd ei ogonedd
A'i fawl byth uwch gafael bêdd.

"Talhaiarn etto oleua—ei wlad,
A'i lên ardderchoca';
Rhyw ail gôf anfarwol ga,
Gu eilydd! tra bo Gwalia."

Prin y mae angen crybwyll mai o deuluoedd Cymreig yr hanai, pan yr adgofiom mai enwau ei rieni oeddynt *Gwen* a *John Jones*, ac adnabyddwyd yntau wrth yr enw cyffredin *John Jones* cyn iddo ddyfod i wisgo yr enw perseiniol Talhaiarn, wrth ba un yr adnabyddir ef bellach mor ddigamsyniol y'mhlith swynol feibion cerdd Cymru.

Tra'n cyfeirio at ei rieni, dyddorol yw meddwl am ei bennillion tyner i'w anwyl fam, gydag ambell gyfeiriad prydferth ynddynt at ei dad. Wele rai o honynt, yn cyfarch ei fam:—

"Pwy ŵyr pa faint o ddagrau serch wylasoch ar fy ngwêdd
Wrth i chwi feddwl am fy nhaith trwy'r dyrys fyd i'r bêdd?
Pwy ŵyr pa faint o'ch gwenau heirdd dywynent ar fy mryd,
Pan dybiech byddai'ch mab yn ddyn llwyddiannus yn y byd?

"Bu llawer tro er hyny o fewn fy anwyl wlad:
Collasoch chwi eich ffyddlon ŵr, a minau dirion dad,

Er's ugain mlynedd, bellach, er galar mawr i mi,
A'm brodyr a'm chwiorydd, a galar mwy i chwi.

"Pwy fel efe mor onest, mor ddiwyd efo'i waith,
Mor dyner efo'i deulu, mor ddistaw ar ei daith ?
Mor gywir yn ei gariad i chwi a minau, mam,
Ni wyrai o'i ddyledswydd, ni fynai wneuthur cam.

"Mae nagrau ar y papur wrth feddwl am fy nhad,
Sy a'i eilun wedi ei seilio tu mewn i'ch mynwes fâd ;
Ni phrynai'r byd eich cariad, wrth feddwl am ei wêdd,
Nis byth anghofiwch mono nes huno yn ei fêdd.

"Pe buaswn i mor dduwiol a moesol a fy mam,
Rhodiaswn hyd yr union ffordd yn lle y llwybr cam ;
Ni chawswn ofid calon ymysg morwynion ffôl,
A'r meddwon mewn oferedd, a'r gwatwar ar eu stôl.

"Troseddais a gwasgerais, ymffolais yn fy ffyrdd,
Fel Solomon a Dafydd, a miloedd mwy, neu fyrdd ;
Er hyn i gyd mae llygad Duw i'm gwylio ymhob lle,
Efallai deuaf wedi hyn yn un o blant y Nê."

Flynyddoedd yn ol, clywais un oedd yn gwybod hanes teulu Talhaiarn, yn dweud wrthyf fod tad Talhaiarn yn berthynas i un o rieni gŵr enwog arall, enwog yn hanes dawn a dysg y deyrnas hon ; a'r hwn sydd fyw pan yr ysgrifenwn, ac yn fawr ei ddefnyddioldeb ; neb llai na'r dysgawdwr athronyddol, Syr Henry Jones, M.A., Ll. D., Glasgow, a'r hwn a ddygwyd i fyny yn yr un dyffryn a Thalhaiarn, o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd, ond wrth gwrs, yn ddiweddarach o ran amser.

Yr oedd Gwen Jones, mam Talhaiarn, yn chwaer dirion a chrefyddol ei hyspryd, yn aelod ffyddlawn gyda'r Bedyddwyr yn ei chartref, a chredwn fod ei phriod hefyd un adeg yn mynychu yr un cynulliad; ac er fod Talhaiarn yn barchus iawn o'i rieni ac o'u crefydd, nes meddu cariad angerddol tuag attynt, yn neillduol felly tuag at ei anwyl fam, er hyny, fel eglwyswr, ran fwyaf, o ran ei grefydd, yr adnabyddwyd ef; a dichon fod ei symudiadau o Gymru i breswylio yn Lloegr ac yn Ffrainc yn rhan fawr i gyfrif am hyny. Ond nid ar bwys unrhyw wasanaeth uniongyrchol ynglŷn â chrefydd, fel llawer o'i gyd-genedl, y daeth efe yn eiddo mor gyhoeddus iddi, eithr yn hytrach fel bardd-gerddor galluog, llefarwr, ac ysgrifenwr llenyddol. Ac yn yr ystyron hyny, yn bennaf, o lawer, y mae a wnelom â'r gwrthddrych yn hyn o ymdrech; tra ar yr un pryd mae yn hawdd cydnabod fod yn y darnau goreu o'i eiddo ffrwd grêf o wirionedd a gonestrwydd yn llifo, ac yn rhwym o droi yn fantais ryw ffordd neu gilydd, hyd yn nod i grefydd ei hun.

Ymddengys iddo feddiannu mwy o fanteision boreu oes na'r cyffredin o'i gydwladwyr; heblaw ei fod wedi cael ei ddwyn i fyny dan nodded mam ragorol, cafodd hefyd y meithriniad addysgol goreu oedd yn gyrhaeddadwy yn ei oes ac yn ei ardal; ac i blentyn natur fel "Tal," yr oedd swynion eithriadol hyd yn nod y'ngolygfeydd y fro dirion y'mha un y gwelodd gyntaf oleuni dydd. Yn ei fachgenoed cafodd anadlu awyr bûr, ac yfed dyfroedd iachusol. Cafodd lwybrau difyr i'w rhodio hyd lethrau rhamantus minion dyffryn yr Elwy. Ar lawer boreu têg y'ngwanwyn, cafodd y cyfleusdra goreu i wrando a mwynhau peroriaeth felus adar mân y llwyni, hyd y llechweddau ger llaw, a

chafodd gyfleusdra dyddorol hefyd i adnabod arferion, ac i deimlo dylanwad meibion a merched y broydd mwyaf neillduedig a phrydferth. Ymddygodd yntau yn anrhydeddus tuag attynt oll, trwy fanteisio arnynt yn yr ystyr oreu, gan yfed i'w yspryd awenol fwynhad beunyddiol yn eu cymdeithas, yn ogystal a'u defnyddio fel moddion dadblygiad i'r talentau eithriadol oedd yn ei feddiant.

Y'ngoleu yr hyn a grybwyllwyd, ynghydag ymdrech bersonol a pharhaus yn ffordd diwylliant a dyfalwch hefyd gyda'i alwedigaeth feunyddiol fel pensaer (*architect*), daeth Talhaiarn yn un o'r dynion mwyaf dylanwadol yn hanes ei oes i'w genedl. Gweithiodd ei ffordd o fod yn fachgen cyffredin ei olwg, mewn pentref gwledig, i fod yn archadeiladydd boneddigaidd yn Llundain a Pharis. Ond er ei holl ddyrchafiad yn yr ystyr fydol, parhaodd i gofio ac anwylo gwlad ei enedigaeth, a defnyddiai bob cyfleusdra dymunol i'w dyrchafu yn marn a theimladau cenhedloedd eraill. Ac i brofi maint ei ddyddordeb yn Nghymru tra ymhell o honi, difynwn yma rannau o'i lythyrau at Eben Fardd, y naill o Loegr a'r llall o Ffrainc :—

"Mentmore, Leighton,
Bucks,
Mawrth 7fed, 1855.

Anwyl ac Enwog Brif-fardd,

Y mae pob tebygolrwydd y byddaf yn cychwyn i Ffrainc yn mhen y mîs neu bum' wythnos, a phwy a ŵyr pa un ai llês ai afles a fydd hyny i mi ? Mae dyn yn dychymygu, ond Duw sy'n trefnu. Yr ydym yn myned i adeiladu palas gogoneddusach na Mentmore i'r Baron James Rothschild, oddeutu

pum' milldir ar hugain tu hwnt i Paris, yr hwn a gŷst dros gan' mil o bunnau, ac os penderfyna Syr Joseph Paxton fy ngyrru yno, neu yn hytrach, os caniatta ein Barwn ni yma i mi fyned, bydd fy lle yn well a nghyflog yn uwch. 'Am arian mae pob ymyraeth,' medd rhywun, ac y mae yn gofyn cryn lawer o arian i'm cadw i, yn fy null gwastraffus o fodoli yn y byd helbulus yma. Dymuniad fy nghalon fa'i byw yn Nghymru, pe ba'i genyf fôdd, ond ni ddymunwn weithio am fy nhamaid yn Nghymru mewn un modd, o ganlyniad, rhaid i mi ddilyn fy nhrwyn lle'r arwain tynged, er cael prês yn y boced. A dweud y gwir, yr wyf yn trachwantu myned i Gâl, o drwst a byddariaeth helyntion dwy a dimai beirdd Cymru. Tybiaf fod natur wedi camgymeryd wrth ddewis Cymru yn lle Ffrainc yn wlad fy ngenedigaeth, oblegid yr wyf yn haner Ffrancwr o anian; hyny yw, yr wyf yn hoffi *wit*, *ease*, *elegance*, *and gaiety* yn fwy na doethineb na philosophi. Ni hoffwn byth eich swydd chwi o fod yn feirniad Eisteddfodol, a gorfod darllen, pwyso, a chlorianu pob math o ysgymun-bethau, a nithio ffioled o fanus cyn cael tair gwenithen. Gwarchod pawb! Beth pe clywai'r beirdd fi? Mi fyddai'n helynt.

I droi'r stori. Bu sŵn ddwy flynedd neu dair yn ol fod y Rothschild yn bwriadu prynu gwlad Canaan, ac ail-adeiladu Teml Jerusalem. Beth, meddech, pe bai achos i chwi gyfarwyddo llythyr ataf cyn pen pum' mlynedd (os byddis byw) fel hyn:—

"Talhaiarn, Clerk of the Works,
Solomon's Temple,
Jerusalem,

ac i minau, o'r ochor arall, eich gwahôdd chwi yno i gyfansoddi Awdl odidoccach (os oes modd) ar yr ail adeilad nac ar y dinystriad !

Gyda'm cofiannau carediccaf atoch chwi a'r teulu.

Ydwyf,

Yr eiddoch yn serchlawn,

TALHAIARN."

Yn mhen tair blynedd a haner wedyn, ysgrifenai at yr un gŵr o Ffrainc, a dywedai fel hyn cyn diwedd ei lythyr :—

" Yr ydym yn adeiladu palas gogoneddus yma i'r gŵr cyfoethocaf yn y byd. Fe gŷst y palas, y parc, a'r rhodfeydd oddeutu dau can' mil o bunnau cyn y cyflawn orphenir hwynt.

Nis gwn yn iawn pa faint o fisoedd y byddaf yma eto, ond y mae fy nghalon yn hiraethu am wibdaith drwy'r hen Gymru anwyl. Yr wyf wedi meistroli yr iaith Ffrancaeg yn o lew yrwan, yn ei darllen hi yn rhugyl, ac yn ei siarad yn symol.

Gyda serch a pharch,

Yr eiddoch yn ddiffuant,

TALHAIARN."

Fel llefarwr cyhoeddus, yr oedd Talhaiarn wedi ei freintio â dawn eithriadol. Yr oedd ei hyawdledd fel ffrŵd lifeiriol felus, yn sicrhau gyda dylanwad cryf ddiddanwch ac adeiladaeth i bob torf yn ei wyddfod. Dylanwadodd lawer yn y cyfeiriad hwnw yn rhinwedd ei safle fel un o arweinyddion eisteddfodol mwyaf derbyniol ei oes. Manteisiai ar bob cyfleusdra ga'i fel llefarwr cyhoeddus i ddyfnhau serch ei gydgenedl at

lenyddiaeth ; i buro ei chwaeth yn y cyfryw, ac i enyn ei sêl yn fwy tanllyd mewn gwladgarwch. Yr oedd iaith ei fam, arferion diniwed gwerin ei wlad, barddoniaeth a cherddoriaeth, ac yn arbenig y delyn a'r Eisteddfod, wedi cael cysegr clyd yn ei galon ; ac nid yn unig yr oedd Talhaiarn yn alluog fel areithydd hyawdl a dylanwadol, ac fel cynhyrchydd barddoniaeth naturiol, felus, ond yr oedd hefyd yn ddigon hyddysg fel cerddor i allu dadganu ei gerddi ar hen alawon hyfryd ei wlad ; a phan y byddai telynor Cymreig yn myned i

"Dynnu mêl o dannau mân"

y delyn, byddai yntau, "Tal," yn fedrus a pharod i ddadganu pennillion gyda'r cyfryw ; a deallwn, trwy gantorion gawsant y fraint o'i glywed, fod mwynder telyn yn tori'n hyfryd yn ei beraidd lais gødidog. Y mae etto'n aros ambell un o'i gydoeswyr yn gallu cyfeirio atto mewn adgofion melusion, ac yn cael adfwynhâd wrth feddwl am y diddanwch adlonnol fu'n llifo mor hyfryd i'w meddiant yn ei anwyl gymdeithas gynt.

Cyhoeddodd Talhaiarn dair o gyfrolau trwchus o'i gynyrchion. Cyhoeddodd y gyntaf pan ydoedd yn bump a deugain mlwydd oed. Cynwysai hono tua 450 o dudalenau, a thanysgrifiodd ei genedl am dros saith gant o gopiau o'r cyfryw. Ymhen saith mlynedd wedi cyhoeddiad y gyfrol gyntaf, cyhoeddodd yr ail, yr hon gynwysai dros dri chant o dudalenau, a thanysgrifiwyd am oddeutu chwe' chant a haner o gopiau o hon drachefn. Cyhoeddodd y drydedd gyfrol ymhen saith mlynedd wedyn, yn yr un flwyddyn ac y bu farw, sef yn 1869. Yr oedd y gyfrol hon etto dros 300 o dudalenau, a nifer y copiau y tanysgrifiwyd am danynt

yn cyrhaedd tua 500. Yn awr, a chaniattau fod nifer y copiau a gyhoeddwyd o holl weithiau Talhaiarn yn gyfyngedig i gylch y tanysgrifwyr yn unig, gellir deall fod yn agos i ddwy fil o gyfrolau o'i weithiau wedi eu gwasgaru, yr hyn sydd yn golygu yn gymedrol dda fel cylchrediad i weithiau unrhyw fardd Cymreig yn uniongyrchol wedi eu hymddangosiad allan o'r wâsg. A diau genym pe buasai holl weithiau yr awdwr dan sylw, yn gynnygiedig ar fwrdd y farchnad hyd heddyw, y buasai cylchrediad y cyfryw yn parhau i gynyddu wrth y cannoedd; gan fod enw "Tàl," ynghydag enw aml gân o'i eiddo, wedi myned bellach yn enwau anwyl a chwbl-deuluaidd ar lawer o aelwydydd cynhesaf y genedl, ac i ryw raddau yn enwau cysegredig i'r calonau mwyaf brwdfrydig mewn gwladgarwch.

Pa ddarllenydd Cymreig sydd heb wybod am gynnyrchion poblogaidd o'i eiddo, megis ei ddadl ddoniol, "Siôn a Siân," a'i chwedl ddifyr, "Modryb Modlan," a'r caneuon "Tôn y Melinydd," "Mae Robin yn Swil," "Hywel a Morgan," "Chaiff neb ei ffordd ei hun," "Plygeingan," "Lewis," "Gweno fwyn gu," "Peidiwch a dweud wrth fy Nghariad," "Siân fwyn Siân," "Perl fy Nwyfron," "Toriad y Dydd," "Y Gwlithyn," "Y Ddeilen ar yr Afon," "Gweddi'r Deyrnas," "Hen Walia yw f'Anwylyd," "Molawd i Gymru," a "Gogoniant i Gymru?" Y mae y rhai hyn, ynghyda nifer liosog o gynnyrchion eraill o'i eiddo, wedi bod yn foddion diddanwch dyrchafol i feddwl a chalon y wlad a garodd mor angerddol, ac a wasanaethodd mor haelionus a ffyddlawn. Ac os ydyw derbynwyr caredig ei gyfrolau yn prysur ddiflanu o olwg eu gwlad hyd ffordd yr holl ddaear, mae'r cyfrolau yn aros o hyd i wasanaethu oes arall sy'n dilyn, ac y mae digon o fywyd

awenol, a digon o wrês gwladgarol yn ei gerddi i barhau yn fywiog a gwresog am lawer oes i ganlyn ; a chyn y peidia neillduolion amlwg Talhaiarn a dylanwadu er gwell yn myd llenyddiaeth Gymreig yr oesau sy'n dod, braidd na fyddai yn gyson i ni gredu y bydd y tafod mwyaf hyawdl ei barabl wedi myn'd yn fûd ; y pennill mwyaf tlws wedi mynd i ffwrdd o gylch ein hadnabyddiaeth ; yr Eisteddfod wedi marw yn ngwlad Eisteddfodol y bryniau, a thannau y delyn olaf wedi torri bob un.

Wrth droi tudalennau cyfrolau ei gynnyrchion, cawn olygfa darawiadol ar fyd llydan ac amlweddog ei alluoedd. Cawn ei fod yma yn torri allan mewn cân seml, chwareus, yn cael ei gwneud i fyny o fân bennillion pert, cwbl-hawdd i'w darllen a'u dadganu, hyd yn nod gan yr ieuenctid gwerinol fyddont yn dwyn eu byd o'r neilldu ynghanol anfanteision. Mae digon o symledd a phertrwydd mewn ambell gân o'i eiddo i gymeryd gafael hefyd yn myd meddwl ysgafn y plant. Mae yn nechreu y gân ddigon o swyn digrifol i ddenu y darllenydd ieuanc, bron yn ddiarwybod iddo ei hun, i dderbyn y foeswers grêf barotôwyd mor darawiadol yn ei diwedd.

Pa sawl plentyn ysgol, yn ogystal a phlentyn hŷn, yn yr hen wlâd, fuont yn difyrus-ddadganu cân Talhaiarn dan y penawd " Tôn y Melinydd ? "—

" Mae genyf dŷ cysurus,
A melin newydd spon,
A thair o wartheg blithion
Yn pori ar y fron.

" Mae genyf drol a cheffyl,
A merlyn bychan, twt,
A deg o ddefaid tewion,
A mochyn yn y cwt.

"Mae genyf gwpbwrdd cornel
Yn llawn o lestri tê,
A dreser yn y gegin,
A phobpeth yn ei le.

"Er hyn i gyd mae nghalon
Yn brûdd o dan fy mron
O eisiau Meinir anwyl
I wneud fy myd yn llon."

Er fod y gân hono, "Mae Robin yn Swil," wedi myned mor gyffredin ar lafar gwlad yn Nghymru gan y dosbarth mwyaf gwerinol, nes bod, bellach, yn agored i gael ei hanwybyddu bron yn llwyr, er hyny, mae rhai llinellau o honi yn ddigon newydd a tharawiadol i fyw gyda dylanwad yn marn a theimlad y darllennydd gofalus :—

"Mae Robin fy nghariad
Yn lliwgar a glân,
Ei foch fel y rhosyn,
A'i wallt fel y frân.

"Pan oeddwn i neithiwr
Yn gwneud bara ceirch,
Ac yntau wrth wylio
Yn swyno fy serch ;
'Roedd canwyll ei lygad
Yn cyneu'n fy ngwêdd,
A minau yn gwrido
O gariad a hêdd."

Mae llawer o naturioldeb a symledd gwledig yr amaethwr ieuanc gwerinol yn dyfod i'r amlwg yn y gân

sy'n dwyn yr enw "Hywel Morgan," pryd y mae "Tàl" yn disgrifio Hywel yn murmur allan ei ysgafnhelynt garwriaethol :—

"Mae genyf dri cheffyl, saith buwch, a dau lo,
A chan' punt yn bentwr mewn cwpbwrdd dan glo,
A deugain o ddefaid, ac ugain o ŵyn,
Ac ŷd yn yr ydlan, a choed yn y llwyn ;
'Rwy'n ifanc a diwyd, a llawen fy ngwêdd,
Wrth geibio a chloddio, a chanlyn y wêdd ;
'Rwy'n ffarmwr go daclus, a thipyn o 'sglaig,
Am hyny tebygwn y dylwn gael gwraig ;
Mae Janet yn loew, mae Laura yn lân,
Myfanwy yn hoew, a melus ei chân ;
Ond Ellen Wyn Ellis o Dyddyn y Fron
Yw gobaith fy nghalon a chysur fy mron."

Rhaid cydnabod hefyd mai cân a llawer o wirionedd ynddi ydyw yr hon sydd dan y penawd, "Chaiff neb ei ffordd ei hun," a gwirionedd yn cael ei ddweud mewn ffordd ysgafn a difyr. Difynir un pennill o'r chwêch :—

"Mae gwŷr a gwragedd yn cael poen
A blinder efo plant ;
Neu pan fo ceffyl, buwch, neu oen
Yn marw yn y nant ;
Y drêth yn drom, y meistr tir
Yn codi ar y rhent ;
Benthyca arian, methu'n glîr
Heb dalu *ten per cent.* ;
'Does ryfedd ini feio'r byd,
A grwgnach bod ag un,
Rhyw gwyno sydd o hyd, o hyd,
'Chaiff neb ei ffordd ei hun.'"

Pennillion serch eithriadol o dlysion sydd ganddo dan y penawd "Plygeingan," yn arbennig y pennill cyntaf o'r ddau :—

"Pan fo'r boreu glâs yn gwawrio,
Canaf bennill i fy mûn;
Gwylied undyn byw ei deffro,
Mwyn a melus yw ei hûn;
Yn ei chŵsg y mae'n breuddwydio
Bod hi'n rhodio gyda mi,
Lle mae rhosys yn blodeuo
Ger y Llan ar fîn y lli."

Mae y gân fechan sydd yn dwyn yr enw "Lewis" yn naturiol a phert, a thrwyddi hi rhydd y bardd awgrym tarawiadol fel y rhêd gwir gariad yn gryfach na bydolrwydd :—

"Am brynu'n rhâd a gwerthu'n ddrûd,
Bydd Einion yn llefaru,
A brolio'i aur y bydd o hyd,
Nid dyna'r ffordd i'm caru;
Mae cariad 'Lewis' fel y mêl,
A'i wenau fel yr hinon,
Priodaf 'Lewis,' doed a ddêl,
Efe a bia nghalon."

Digrif a chwareus hefyd yw y llinellau canlynol o'i eiddo dan benawd arall, a diau eu bod yn gwasanaethu fel cysgodion ganddo i osod allan ffeithiau y gwyddai am danynt :—

"Aeth Siân Mari Morus i ganlyn ei gŵr
I ffair Abergele, i ganol y stŵr,
I werthu y mochyn, ond be oedd hi nês?
Hi gollodd ei phoced, a chollodd y prês.

"Aeth Robin y Fferwd â'i gariad i'r ffair,
Gan feddwl gael pleser am ddwyawr neu dair;
Aeth Robin i dretio Miss Nansi o'r Glyn,
Ac wedyn i garu Miss Jones a Miss Wyn,
Ac felly mi gollodd ei gariad ei hun,
A 'nawr y mae Robin yn byw heb yr un."

Yn ei gân felus i "Weno," ceir ei fod yn tystio yn happus i wirionedd yr adnod sy'n dweud fod cariad yn cuddio lliaws o bechodau :—

"Diniwaid dy gusan—
Melusach na gwîn;
Dieuog, di-bechod, f'anwylyd;
Pe ba'i fy nghamweddau
I gyd ar dy fin,
Cusanwn hwynt ymaith mewn munyd."

A chyn gadael y dosbarth hwn o ganeuon, temtir ni i ddifynnu dau bennill swynol arall, sy'n gwneud i fyny ganig dirion i'w anwylyd :—

"Mae nghariad fel y Lili Lân,
Ac fel y Rhosyn Coch;
Mae Lili ar ei gwddw gwyn,
A Rhosyn ar ei bôch;
Mae gwrid yn t'w'nu yn ei gwêdd,
A phurdeb yn ei gwên,
A gwell i'r bardd na blodau'r ardd,
Bydd hon yn hardd yn hên.

"Ond ber yw oes y blodau cain,
Y lili syrth i lawr,
A'r rhosyn tecaf yn yr ardd
A gyll ei wiwlwys wawr;

Pan fyddant hwy heb lun na lliw,
Yn wyw mewn isel fri,
Ni wywa henaint flodau serch
Y ferch a garaf fi."

Wrth adael y caneuon serch-swynol hyn, dyddorol yw nodi mai hên lanc di-briod a digariad ydoedd y bardd, a deallwn mai dyna hanes eraill fuont enwog am serch-ganu fel yntau, megis Dafydd ap Gwilym, ynghydag amryw eraill ellid nodi.

Melus iawn yw gwrando ar Talhaiarn yn canmol ei fro enedigol, ac yn hiraethu am dani mewn cân gynes o gariad tuag atti :—

"Rhyw hudol fwyn hyfrydol fan
Yw'r llan ar fîn y lli;
Melusol ydyw cwafriol gân
Hedyddion mân i mi;
Rhoi'r clôd i Lundain gain ei gwedd,
A'i mawredd ymhob man,
Er hynny hoffwn fyw yn rhydd
A llonydd yn ein llan.

"Cawn yno groesaw gan fy mam,
Heb ofyn pa'm y dois,
Na'r achos imi droi yn ol
O siriol wlad y Sais;
Er cael cyfeillion rîf y sêr,
A mwynder ymhob man,
Hiraethu wnaf am fyn'd yn ol
I'm genedigol lan.

"Cael eiste'n ymyl aelwyd hardd
Fy mam, yn fardd o fri,
Yn nghwmni bechgyn bochgoch, iach,
Mil mwynach yw i mi."

Mynega hefyd ei ddymuniad mewn cân arall i'r un cyfeiriad :—

" Trafaeliais i trwy lawer Sir,
A gwelais aml dro ar fyd,
Tra bu'm yn byw mewn estron dîr,
Dolurus oedd fy mron o hyd ;
Hiraethu byddwn ymhob man
Am wel'd y llan ar fîn y lli,
Fy anwyl, enedigol lan,
O ! dyna'r fan mae nghalon i."

Ond nid oedd canu molawd i ran neillduol o'i wlad (sef i'w gartref) yn ddigon gan Talhaiarn, oblegid yr oedd yn caru ei wlad a'i genedl yn gyfan oll, a hyny gyda chalon gywir, yn hollol rydd a difalais. A dichon fod rhannau o'i " Folawd i Gymru " yn rhoddi mantais i ni i deimlo pa mor drymion yr ydoedd curiadau ei galon gynes yn curo tuag atti, hyd yn nod tra ymhell oddi wrth y cyfryw o ran ei breswylfod.

" Henffych well i wlad fy nghalon,
Llwyddiant iti, Gymru dirion ;
Bendith i dy feibion dewrion
A dy ferched glân ;
Peraidd yw dy hynod hanes,
I wresogi serch fy mynwes,
Tra bo ngwaed yn llifo'n gynes,
Caraf wlad y gân ;
Hiraeth sydd i'm llethu
Am anwylion Cymru ;
Ow, na chawn fy mhwrs yn llawn,
A chrêd a dawn i'm denu ;

"Y LLAN-AR-FIN-Y-LLI."

Adre'n ol i blith fy nheulu,
A chyfeillion i'm croesawu,
Yn olynol gwnawn folianu
Cymru, gwlad y gân.
Cara'r oen y ddafad,
Cara mûn ei chariad,
Cara'r cybydd bwrs yn llawn
A dyn â dawn ei dyniad;
Cara'r babi fron ei fami,
Caraf finau'r wlad wy'n foli;
Duw a ŵyr mor anwyl imi
Ydyw Cymru lân."

A chredwn fod gweddi Talhaiarn yn ei gân dan y penawd "Calenig i Gymru," yn weddi gwbl-onest, ddiragrith, yn achos ei wlad pan y dywedai:—

"Gwyn fy myd pe gwelwn Gymru
A'i llu anwyl yn llawenu,
A phob llan a thrêf yn crefu
Mwy o gynydd, mwy o ganu;
Dyma ngwaedd, a dyma ngweddi,
O fy nghalon i fy Ngheli,
I'r wlad hên lle cês fy ngeni,
Byd o loniant boed eleni."

Rhaid cydnabod fod ambell fardd Cymreig wedi bod, ac yn bod, i'w ganmol am ei sêl wladgarol, ac am ei lafur dyfal a haelionus yn myd llenyddiaeth a chân, ond yn sefyll yn brin mewn teyrngarwch a chyfeiriadau eraill yn y byd gwleidyddol. Ond yr oedd Talhaiarn yn dra gwahanol, oblegid nid yn unig yr oedd yn fardd poblogaidd ymhlith y werin-bobl, yn gallu swyno'r gwladwr

syml fyddai yn un o ddeiliaid mwyaf cyffredin y deyrnas, ond yr oedd hefyd, trwy ei natur dda, ac arbenigrwydd ei athrylith urddasol, yn cael sylw edmygol gan y dosbarthiadau uchaf mewn awdurdod yn ngwlad a theyrnas Prydain. Nid oedd hyn yn hynod pan feddyliom pa mor deyrngar y canai ambell bryd, yn yr iaith Gymraeg yn ogystal ac yn yr iaith Saesneg. A gwasanaethed y llinellau canlynol fel ychydig engreifftiau o'i bennillion teyrngarol yn oes Victoria :—

"Dyro i'n Brenhines ffyddlon,
Gysur, grâs, a hoen, a hêdd,
Prûdd ac ysig yw ei chalon
Am ei gŵr sydd yn y bêdd;
Dyro iddi Dy dangnefedd,
Craig ei noddfa ydwyt Ti,
Tywallt arni Dy drugaredd,
Arglwydd Dduw, amddiffyn hi!"

Etto :—

"Anwyl blant hên Gymru,
Bob mab a phob merch,
Gochelwn deyrnfradwyr
Di-synwyr, di-serch;
Ond boed i deyrngarwch,
Brawdgarwch brwd, gwir,
Ynghyda gwladgarwch,
Orlenwi y tir;
Bob nos a phob dydd
Y rhoddwn trwy ffydd,
Ufudd-dod i'r goron
Yn rhadlon a rhydd."

Etto, un engraifft berseiniol arall yn yr un cyfeiriad:

"Diffynwn ein Brenhines lân
Rhag arfau, tân, ac oerfel,
Rhag pob rhyw gecraeth îs y rhôd,
A thrafod drwy gwrthryfel;
Diffynwn Ryddid Prydain glau
A'i breintiau rhag gwŷr bryntion,
Pob calon lam o serch i'n gwlad,
A chariad at ei choron."

Gwelir fod awgrym am ryddid yn y llinellau ddifynwyd, tra tybiai llawer mai ceidwadwr selog ydoedd "Tàl" ar gyfrif rhai o'i syniadau crefyddol a chymdeithasol. Ond yr oedd ef yn fwy rhyddfrydig ei galon a'i yspryd nac y tybiai amryw ei fod. Wrth gwrs, yr oedd ganddo gyfeillion caredig yn perthyn i'r ddwy blaid wleidyddol fel eu gilydd; ac nid oedd ef yn malio gronyn gyda pha blaid y tywalltai allan ei ddiddanwch melus mewn awen a chân.

Un tro, ar adeg etholiad prysur, digwyddai "Tàl" fod yn bresenol mewn cwrdd pryd yr oedd boneddwr ceidwadol i annerch y cyfarfod; a chan fod yr ymgeisydd hwnw, ynghydag eraill yno, yn hollol hyspys o allu ac o gymhwysder y bardd i lywyddu neu arwain unrhyw gwrdd cyhoeddus o'r fath, gofynwyd iddo ymgymeryd â'r llywyddiaeth, gyda'r hyn y cydsyniodd yn hwyliog.

Wrth fyned ymlaen, dywedodd ymysg pethau doniol eraill ei fod yntau fel pob gŵr bonheddig arall, yn dipyn o *dori* y noswaith hono, ac os felly, diau y tybient fel cynulleidfa ei fod yn perchenogi etifeddiaeth fawreddog. Ond dymunai ef eu hyspysu y byddai ef y foment y

rhoddai ei het am ei ben, y byddai ef ar y pryd wedi rhoddi *cover* ar ei holl ystâd.

Yr oedd Talhaiarn, fel pob gwir fardd, yn feddiannol ar galon dyner, agored, yn cydymdeimlo mewn hyfrydwch gyda phlant gofidiau. Gwrandawer mor effeithiol y llwyddai i ymostwng i brofiad yr eneth fach amddifad :—

"Dywedai yn alarus,
Tylodi yw fy rhan,
Mae'r byd yn gwgu arnaf fi,
A nghalon inau'n wan;
Wrth rodio llwybrau adfyd,
Nid oes i mi ddim hêdd;
O! na bawn efo nhad, a mam,
Yn huno yn y bêdd.

"Mae dirmyg annhosturiol
Yn troi fy nghri yn wawd,
'Does undyn byw yn trugarhau
Wrth eneth wael, dylawd."

Wrth sôn am dano yn cydymdeimlo, dyddorol yw cofio am dano yn angladd ei gyd-fardd a'i gyd-oeswr, Iorwerth Glan Aled. Yr oedd "Tàl" yn bresenol yn talu parch i'w gyfaill-awenydd coeth a melus; a dywedir iddo, o dan deimladau dwysion roddi annerchiad ar lan y bêdd, yn mynwent Llansannan. A hawdd dyfalu pa mor effeithiol, yn rhandir y meirw, ydoedd ei hyawdledd byw o dan y fath amgylchiadau. A thra'n sôn am fêdd Iorwerth, ymddengys fod hên gydnabod iddo yn byw yn Llansannan y pryd hwnw o'r enw Robert Jones, y clochydd, yr hwn oedd englynwr rhagorol, a phenderfynodd yr hên bererin fyn'd atti i

wneud englyn beddargraph i'w gymydog ymadawedig, gan ymdrechu odli yr englyn gyda'r enw *Iorwerth*, a dechreuodd yn rhagorol fel hyn :—

" Y parodfawr fardd prydferth—sy'n y bedd
O sŵn byd a'i drafferth ;

ond nis gallai yr hên glochydd fyn'd yn ddim pellach, a bu raid cael cymorth Talhaiarn i orphen yr englyn gyda'r odl dan sylw, ac fel hyn y gorphenwyd yr englyn :—

" Mor wir a marw Iorwerth,
Farw o gân fawr ei gwerth."

A dyna'r pedair llinell sydd heddyw yn argraphedig ar y gîst o garreg lâs ar fêdd Iorwerth Glan Aled, ac nid hawdd fuasai cael llinellau cymhwysach er côf am dano.

Hyd yn hyn, yr ydym wedi ceisio dangos rhai o'i dueddiadau fel y deuent i'r amlwg mewn caniadau ar fesurau digynghanedd ran fwyaf ; ac yn y mesurau hyny y canodd fwyaf o lawer o'i weithiau, ond cawn ganddo rai cynnyrchion o deilyngdod uwchraddol yn y mesurau cynganeddol hefyd, yn arbennig ddarnau byrion ar amrywiol destynau.

Wrth i ni edrych ar ei gynnyrchion cynganeddol oll gyda'u gilydd, nis gellir rhoddi y warogaeth uchaf iddo fel bardd yn y dosbarth hwn o farddoniaeth ; ond nid diffyg gallu naturiol i wneud gorchestion cywrain, na diffyg gwybodaeth yn nghyfrinion y gynghanedd sydd yn cyfrif am hyny, oblegid yr oedd gallu diamheuol yn meddiant Talhaiarn i wneud gwaith cywrain yn myd celfyddyd. Yr oedd hyny yn hollol eglur yn ei hanes llwyddiannus gyda'i alwedigaeth

feunyddiol; ac y mae llawer i'w cael yn ein byd llenyddol a chylchoedd eu gwybodaethau yn llawer cyfyngach na chylch gwybodaeth Talhaiarn, ydynt yn abl i gynnyrchu darnau gwir deilwng yn y mesurau cynganeddol, a hyny am eu bod wedi arfer llawer yn y cyfeiriad hwnw.

Er i ni fod yn feddiannol ar allu naturiol crŷf, ac yn hollol hyspys yn ngramadeg yr iaith, a hyddysg yn rheolau y gynghanedd, nid yw hyny yn ddigonol i sicrhau genym gyfansoddiadau cynganeddol llyfnion a tharawiadol. Rhaid wrth ddyfal arfer yn barhaus, a chredwn nad oedd Talhaiarn yn arfer yn y cyfeiriad cynganeddol ond ar brydiau megis. Wedi'r cyfan, ceir ganddo rai llinellau cynganeddol sydd yn sicr o fyw wedi i lawer o gynyrchion di-gynghanedd farw.

Ar ol "Bardd Nantglyn," cyfansoddodd yr englyn canlynol:—

"Anwyl fardd swynol a fu—a seren
Yn siriol lewyrchu;
Daeth ei awen dan wenu
A nwyf ei gân o'r nef gu."

Yn ei gywydd i'r haul, ceir llinellau cryfion a byw megis:—

"Ti huan hoff wyt yn hau
Gwawl anwyl yn ein glynau;
A miloedd sydd yn moli
Awyr dêg a dy wawr di;
Hebot ti byddai'r byd têr
A'i nwyfiant oll yn ofer;
Enaid a llygad anian,
Eilun Duw, olwyn o dân."

Yn ei gywydd i'r gaeaf, ceir y llinellau canlynol yn ei ddisgrifiad o'r eira :—

" Pa 'stafell neu gell a ga'
O'r pla oer a'r plu' eira ?
Dduw gwyn ! mae pob bryn a bro
A dolydd wedi'u hulio."

Mae ei ymgom gyda'r Eos hefyd yn cynwys rhai llinellau eithriadol o awenyddol a phrydferth :—

" Fîn nôs yr eos a rydd—ei glwysgan
O'r glasgoed i'r dolydd ;
Yn brydlawn ni gawn o'r gwŷdd
Bûr alaw gan bêr eilydd.
Aderyn bach ! dyro i'n byd
Nod addien i ddedwyddyd."

Ond anaml y ceir yn ei weithiau linellau cynganeddol fel y rhai a ddifynwyd i'n llwyr foddloni. Nid oes ond ychydig o'r cyfryw yn ei awdl fawr i'r Greadigaeth, er mor amrywiol yw y cyfeiriadau sydd ynddi.

Credwn fod rhai o'r llinellau i greadigaeth Efa, fel cymhares wrth fodd ei phriod, yn gwneud i fyny yr ychydig llinellau goreu yn yr holl awdl :—

" A serchlawn fûn a luniodd
(Mae'n wyrthfawr) mûn wrth ei fodd ;
Wîr ufudd, ddiwair Efa,
Rhôdd ragorol ddwyfol dda ;
Gem iraidd yn gymares,
Efa gyfiawn lawn o lês ;
Main ei gwâsg, mwyn a gwisgi,
Blodyn gwawl hafawl oedd hi ;
Eilun noeth o ddwylaw Nêr,
Harddach, gwynach na gwener."

Bellach, ceisiwn sylwi ychydig ar gynnyrch ei feddwl yn y cyfeiriad goreu, sef y cynnyrch hwnw sydd wedi ei nawseiddio yn fwyaf dymunol, nid yn unig gydag ysprydiaeth awenol, ond hefyd gyda dymuniadau addolgar, a melus yw y myfyrdod am dano yn y cyfeiriad hwn, pa ddiffyg bynag a briodolir iddo yn ei fywyd ac yn ei farw. Mae yn amlwg oddiwrth ambell linell o'i eiddo ei fod yn gwerthfawrogi cydwybod ddiddig a chalon gywir :—

> " Dedwyddyd a dawn, a gwynfyd a gawn,
> Tra bydd y gydwybod a'r galon yn iawn."

Nid oedd dim yn gasach yn ei olwg na ffugio gyda chrefydd ; llawer gwell oedd ganddo ddyn yn y byd na rhagrithiwr yn yr eglwys ; ac fel hyn y dywedai un tro yn gellweirus yn un o'i ysgrifau Saesneg am ddynion ffyddlawn eu hymddangosiad ar y Sûl, ac yn anonest ar hyd yr wythnos yn gwasanaethu Belial :—

> " We must not expect too much from people who serve the Devil all the week, and go to chapel to abuse him on Sundays."

Yn un o'i garolau Nadolig, y mae Talhaiarn yn llwyddo i godi'r darllenydd i gywair hyfryd a melus, gan ddilyn yn rymus yspryd y prophwyd Esaiah, pryd y cana yn mysg rhai eraill linellau fel hyn :—

> " Wele siriol Rosyn Saron,
> Harddach yw na'r lili wen ;
> Wele goron o ogoniant
> Yn llewyrchu am ei ben ;

Yspryd Duw sy'n gorphwys arno,
Yspryd Ei ddoethineb Ef;
Yspryd Cyngor ei gadernid,
Yspryd holl wybodaeth nêf.

"Daeth i gadarnhau y gweiniaid,
Ofnus galon a gryfhâ;
Egyr glustiau y byddariaid,
Llygaid deillion a fywhâ:

"Daerolion lawenychant
Yn ei Iachawdwriaeth hoff,
Moliant ddaw o enau'r mudan,
Fel yr hŷdd y llam y clôff.
Meibion ei gystuddwyr ddeuant,
Ymostyngant wrth ei draed;
A'i watwarwyr a sychedant
Am ei gymod yn y gwaed."

Difynwn etto ddau bennill o'i efelychiad o *Sadnesses by Quellyn*, a rhydd y pennill olaf o'r ddau brawf happus i ni fod hyd yn nod Talhaiarn, er ei holl lawenydd tymorol, yn gwybod rhyw gymaint am lawenydd uwch, ac yn cael ambell gipdrem hyfryd o ran ei feddwl a'i yspryd ar olygfeydd rhyfeddol Calfaria, ac yn cael ei arwain mewn myfyrdod bywiog i weled ymylon ysgeifnoleu y tir dymunol:—

"Trist yw calon y carcharor
Pan yn cwyno yn ei gell,
Trist yw alltud pan yn myned
Dros y môr i dalaeth bell;

Colli golwg ar ei riaint,
Colli'r bwthyn lle bu byw,
Colli gobaith, ffydd, a chariad,
Colli pobpeth ond ei Dduw.

"Trist yw gweled y pererin
Ar ei daith i Ganaan bell,
Yn hiraethu am Galfaria
Fel y meudwy am ei gell;
Ceisia gyrhaedd pen y mynydd,
Cwympa mewn angeuol loes;
Cwyd ei welw law wrth farw,
A'i olygon at y Groes."

ATTODIAD.

YCHYDIG DDIFYNIADAU PELLACH O WAITH Y GWRTHDDRYCH.

PRIODAS TWM O'R NANT.

"Diwrnod mawr yn Llanfair oedd y 19eg o Chwefror, 1763. Dyna'r diwrnod y priodwyd Thomas Edwards (Twm o'r Nant), y bardd ffraethlymaf yn ei oes; gwelwch gopi o'r *Register* :—

"Thomas Edwards, of the Parish of Henllan, Batchelor, and Elizabeth Hughes of this parish, Spinster, were married in this church by licence, this nineteenth day of February, in the year one thousand seven hundred and sixty-three, by me,

EVAN EVANS, *Curate*.

This marriage was solemnized between us,

THOMAS EDWARDS.
The mark *E* of
ELIZABETH HUGHES.

In the presence of,

DANIEL LLOYD.
WILLIAM HUGHES.

"Gwelwch mai Ieuan Brydydd Hir oedd yr offeiriad, ac yr oedd ei glochydd dysgedig, Robert Thomas, yn gweinyddu gydag ef, ac ymhlith y gwyddfodolion gwelid Dafydd Siôn Pirs a Siôn Powel o Ryd yr Erin.

'Llon fu'r dydd yn Llanfair dêg.'"

CHWEDLAU AM LANFAIR A LLEOEDD ERAILL.

"Yr wyf yn cofio pan yn blentyn, y byddai Siôn y Rhiw yn *sexton* (sef clochydd a thorwr beddau), ac yn cymeryd arno lanhau yr eglwys, ond byddai yn llawer gwell ganddo rwgnach na gweithio nerth braich ac ysgwydd. 'Y mae nhw yn galw hon yn Eglwys Lân Gatholig,' meddai Siôn, 'ond mi dynga fod yma faw ynddi hi er's deng mlynedd ar hugain.'"

"Yr oedd Catrin y Rhiw (gwraig y *sexton*) yn hên wreigan lân, dwt, a thaclus, yn ei charpiau. Ac ar ol marwolaeth Siôn, aeth Catrin i fyw hefo ei mab ynghyfraith i Fynydd Moelfre. Daeth y gair i'r Llan fod Catrin wedi marw, ac ymhen diwrnod ar ol hyny, dyma Catrin yn dyfod i'r Llan yn ddigon sionc. '*Dear me*, modryb Catrin, mi glywais i eich bod wedi marw,' meddai Betti Lewis, 'ac yr oeddwn i yn meddwl yn siwr o ddyfod i'r claddedigaeth.' 'Wel yn wir,' ebai yr hên wreigan, druan, 'mi fase'n dda iawn gen i'ch gwel'd chwi yno. Na, na, Duw a helpo mhen gwan i, nid dyna ydw i yn ei feddwl, mi fase dda gen i glywed eich bod wedi bod yno.'"

"Yr oedd hên ŵr yn Sir Fôn yn curo ei wraig ryw dro. 'O! peidiwch, Siôn bach,' meddai hi, 'ni wna i byth etto.' 'Gwaed y gŵr drwg,' ebai Siôn, 'pwy sy'n ceisio i chwi wneud etto? Eich curo am y peth wnaethoch yr ydwyf fi.'"

"Yr oedd Dafydd Rowland yn weithiwr yn Ngarthewin, ac yn ddyn mawr, cawrfilaidd, a bwytteig. Aeth at Wm. Parry'r Crydd i gael tynnu dant. Tynnodd Wm. Parry ddarn o'i fochgern i ganlyn y dant gyda

rhyw hên erfyn mawr, rhydlyd. Cododd chŵydd anferthol ar fôch Dafydd ar ol hyny, a chanodd Bob Jones iddo fel hyn :—

'Dafydd Rowland, Garthewin Fawr,
Un fôch fechan ac un fôch fawr.'"

"Wrth sôn am yr enwogion a urddasant ein Llan, ni ddylwn anghofio 'Caledfryn.' Bu ef, pan yn ŵr ieuanc, yn byw yno am ddwy flynedd, ac o ganlyniad, cymeraf yr hyfdra o'i restru ymhlith ein Beirdd. Nid oes a fynwyf â'i opiniynau Dissenteraidd a Pholiticaidd, ond o'r ochr arall, yr wyf yn ei barchu fel un o feirdd godidocaf ein hoes. Y mae ei Awdl ar 'Longddrylliad y Rothsay Castle' yn orlawn o dân awenawl, ac yn anfarwol glôd iddo."

WESTMINSTER HALL.

"Adeiladwyd y neuadd gyntefig gan William Rufus, ac ail-adeiladwyd hi yn y dull presenol yn y bedwaredd ganrif ar ddêg gan Risiart yr Ail. Dywedir mai hi yw'r ystafell fwyaf yn y byd heb bileri i gynnal y *roof*. Y mae hi yn 290 o droedfeddi o hyd, ac yn 68 o led. Boed i bawb sy'n hoffi campwaith pensaerniol fanylgraffu ar y *roof*, o herwydd cyfrifir ef yn ben-ogoniant seiri coed yr holl fyd. Y mae llawer o ffeithiau hanesyddol yn perthyn i'r ystafell yma. Yma y crogwyd y banerau a ddygwyd oddi ar Siarls y Cyntaf yn mrwydr Naseby, ac oddi ar Siarls yr Ail yn mrwydr Worcester. Yma, ymhen uchaf y neuadd, y cyhoeddwyd Oliver Cromwel yn Arglwydd Noddwr (*Lord Protector*), ac yntau yn eistedd mewn gwisg o felfed porphor, sidan, ac *ermine*, yn dal teyrnwialen aur mewn un llaw, a Beibl

wedi ei oreuro yn y llaw arall, a'i gleddyf wrth ei glun. Yma, ymhen pedair blynedd ar ol y rhwysg a'r anrhydedd, y crogwyd ei benglog ar bolyn ar y pigyn talcen, a phenglog *Ireton* ar un ochr, a phenglog *Bradshaw* ar y llall. Codwyd corph Cromwel o'i fêdd, a chwalwyd ei lwch i bedwar gwynt y nefoedd! Syndod!"

WESTMINSTER ABBEY.

"Bydd rhyw deimlad o serch a pharch at seiri gorgampus y Canol Oesau yn rhedeg fel mellten drwyddof. Mor fychan yw dyn, ac mor fawr yw ei ddeall, i lunio ac i weithio teml mor fawreddig a hon. Edrychwch ar y pileri, yr *arches*, y *groins*, y ffenestri, y cerfwaith, y maintioli, y cyfartalrwydd, a phriodolrwydd yr holl adeilad, fel teml i'r Hollalluog Dduw. Rhyfeddol! Rhyfeddol! Onide?

"Pe buasem yn gwel'd y Deml hon yn ei gogoniant cyntefig, a phob un o'r ffenestri yn llawn o wydr amryliw, a phelydrau yr haul yn tywynu drwyddynt, ac yn rhoddi claerdeb a chynhesrwydd i'r holl liwiau gorwychion, buasem yn rhyfeddu'n fwy fyth.

"Y mae *monument* Harri y Seithfed a'i frenhines yn nghanol y capel, o waith Peter Torrigiano, cerfiwr Italaidd, a dywedai Lord Bacon am dano:—'It is one of the stateliest and daintiest tombs in Europe.'

"Geill dyn ddarllen pregeth, yr oreu a wnaed erioed, yn y fan yma. Yma y coronwyd ac y claddwyd ein brenhinoedd, rhai o honynt yn cerdded ar lŵch eu tadau i gyrhaedd y goron. Y mae yma acer o dir wedi ei hau â hâd breiniawl; y cyfnewidiad mwyaf; o wisgoedd gwychion i noethni, o'r palas godidog i'r arch; o

fyw fel duwiau i farw fel dynion. Y mae hyn yn ddigon i oeri rhwysg, i iselu balchder, i atal ymgrafiad cybydddod, ac i ystaenio lliwiau byrbarhaol, a thegwch dynolryw.

"Yma yr huna y rhyfelgar a'r heddychol, y llwyddiannus a'r aflwyddiannus, y tywysogion a garwyd a'r rhai a gasawyd gymysgant eu llŵch, ac yn eu marwoldeb dangosant i'r byd mai 'unrhyw brenin a chardotyn.'"

HYDE PARK.

"Dylech fod yma o bedwar i chwech ar y gloch ar brydnawn dydd Sul i weled rhês ddiddarfod o gerbydau godidog, a cheffylau gwychion, arglwyddi a boneddion ein gwlad, a miloedd ar filoedd o bobl yn mwynhau awyr iachus y parc. Diameu y bydd llawer o honoch yn barnu hyn yn drosedd yn erbyn y Sabbath. Ond dylech gofio fod miloedd o bobl Llundain yn gweithio yn galed mewn awyr afiachus ar hyd yr wythnos, a bydd yn iechyd ac yn fendith iddynt gael anadlu anadl anllygredig y nefoedd ar y Sûl. Pa fodd bynag, ni fedrwch chwi na minau ddim attal y mwyniant yma, pe teimlem ar ein calon wneuthur hyny."

ARDDANGOSIAD MAWR Y PALAS GWYDR.

"Mae'r Palas Gwydr ar ben cael ei orphen, ac y mae yn un o ryfeddodau'r oes. Y mae yn sefyll ar ddeunaw acer o dir, ac y mae ynddo dair acer o *galleries*. Mae y *transept* yn 108 o droedfeddi o uchder, a 72 o led, a'r nen yn fwäog. Y mae canol-nen yr edyn yn 64 o droedfeddi o uchder, a'r *aisles* nesaf attynt yn 44, a'r rhai

wrth yr ochrau yn 24. Y mae'r adeilad yn cynwys 900,000 o droedfeddi o wydr, yn pwyso 400 o dunelli. Y mae ynddo 3,300 o golofnau haiarn, ac oddeutu 3,000 o drawstiau haiarn. Y mae holl gwteri y *roof* yn 34 milltir o hyd, a'r holl *sash bars* yn mesur 205 o filltiroedd. Cynlluniwyd yr adeilad gan Mr. Paxton, adeiladwyd ef gan Messrs. Fox a Henderson, ac mi gŷst oddeutu cant a haner o filoedd o bunnau.

"Nid oes ond chwe' mis er pan ddechreuwyd y gwaith; ac y mae yn syndod i ni feddwl fod adeilad o'i faintioli wedi cael ei gario ymlaen mor gyflym.

"Buont dri chan' mlynedd yn adeiladu Eglwys St. Pedr, yn Rhufain; tri ugain mlynedd yn adeiladu St. Paul, yn Llundain, ac y mae dros ddeng mlynedd er pan ddechreuwyd ail-adeiladu y Senedd-dai. Ond dyma adeilad yn sefyll ar fwy o dir na'r un o honynt yn cael ei orphen mewn chwe' mis. Dyma brawf anwadadwy o ddyfais a diwydrwydd y Saeson. Mae'n debyg nad oes un deyrnas arall ar wyneb y ddaear lle gellid gwneud cymmaint o waith mewn cyn lleied o amser.

"Y mae yno Fabel o ieithoedd, ac y mae trwst y chwimweithwyr yn ddigon i

'Synu, pensyfrdanu dyn.'"

Dydd yr Agoriad.

"Dychmygir fod oddeutu deg can' mil o bobl yn cadw gŵyl ar yr achlysur,—rhai ar ben y teiau, rhai ar ysgolion, meinciau, a byrddau, rhai yn gwau yn ol ac y'mlaen, ac eraill wedi dringo'r coedydd mawrion, ac yn edrych fel twrr o nythod brain, a phawb fel pe

buasent wedi penderfynu yn unfrydol i fod yn dda eu tymher i ddioddef y gwasgu a'r ymwthio, heb rwgnach. Yr oedd y boreu yn lled gymylog, a gwlawiodd ychydig chwarter cyn deuddeg, ond cliriodd yr awyr yn ebrwydd, yn mhen pum' munud, ac ymddangosodd yr haul yn ei ogoniant dihefelydd, fel pe buasai yn gwenu ar ymdaith y Frenhines. Ac yr oedd nen fawr fwäog y Palas Gwydr yn gwreichioni yn ei belydrau, fel y deimond Koh-i-Noor (mynydd o oleuni), yr hwn sydd yn awr yn yr *Exhibition*, ac yn werth dau fyrddiwn o bunnau.

"Cyn gynted ag yr aeth ei Mawrhydi i'r Palas, codwyd y faner freiniol ar ei ben, a chlywem hwrê fawr o'r tu mewn nes oedd yr adeilad grisialaidd yn crynu. Yna eistedd y Frenhines ar ei theyrngadair, ynghanol yr holl deulu brenhinol, a dadganwyd y *National Anthem*, "God Save the Queen," gan gôr lluosog o brif gantorion Llundain, gydag organ fawr Gray a Davison; a dywedir fod pob calon o'r pum mil ar hugain oedd i mewn yn dychlamu o serch wrth wrando ar yr Anthem anfarwol hon yn cael ei chwareu a'i chanu mor effeithiol.

"Nesaodd Arglwydd Archesgob Canterbury at y deyrngadair, a gweddiodd mewn dull tra defosiynol, i ymbil ar Dduw am fendith ar y gwaith. Wedi hyn, canwyd yr "Halelwia Chorus" gan gorau y Capel Breiniol, Eglwys Gadeiriol St. Paul, Westminster Abbey, a Chapel St. Sior, gyda'r organ; ac yr oedd campwaith Handel yn llenwi 'r holl adeilad, ac yn creu yspryd addoliant yn yr holl wyddfodolion.

"Y mae tua deng mil ar hugain (30,000) yn ymweled â'r Palas Grisial bob dydd er gostyngiad y pris i bum swllt yr un, a derbynir dros ddwy fil o bunnau bob

dydd wrth y drysau, heblaw y gwerthu mawr sydd ar y *season tickets*.

"'Ni ddigonir y llygad â gweled,' mêdd y Gŵr Doeth. Cewch brawf o hyny yma; ac oni ddigonir y llygad, bydd y traed wedi blino, oherwydd rhaid cerdded deng milltir ar hugain, o leiaf, tu fewn i'r Palas, cyn y gwelir yr holl wrthddrychau."

BEIRDD A BARDDONIAETH.

"Coeliwch fi neu beidiwch (yr un a fynoch), ni fu erioed fardd poblogaidd heb galon dyner a serchlawn. Pa fodd y gellir disgrifio teimlad heb ei feddiannu? Pa beth yw barddoniaeth ar ol y cwbl? Onid iaith teimlad, serch, a brwdfrydedd (*enthusiasm*)? Dywed Caledfryn yn ei feirniadaeth grâff ar bryddestau Aberystwyth,—'*Prydyddiaeth ydyw gwirionedd wedi ei ysprydoli gan deimlad.*'"

Dewi Wyn.

"Gan fod dwy ochr i bob peth yn y byd yma, a'r byd nesaf hefyd, am a wn i, gadewch i mi sylwi am funud ar yr ochr oreu i Dewi. Wele engraifft o farddoniaeth drwyadl:—

> 'Merch nêf wen, mam llawenydd,
> Goreura dêg reitheg rydd;
> Da i anian dy eni,
> Dedwydd o'th herwydd aeth hi.'

"Pa fardd o amser y cread hyd yn awr a annerchodd yr Awen mewn dull mor gampus? Sylwch arno. Pa beth yw awen? '*Merch nef wen.*' Pa beth heblaw

hyny ? '*Mam llawenydd.*' Pa beth oedd y canlyniad o'i hymddangosiad cyntaf yn y Greadigaeth ?

'Da i anian dy eni,
Dedwydd o'th herwydd aeth hi.'

"*Well done*, Dewi, gellir dweud mewn perthynas â'r awen a thithau :—

'Dedwydd o'th herwydd aeth hi.'

" Cawr mawr mewn gorchestwaith a phrif-fardd y beirddion,
Rhyfeddod oedd Dewi i engyl a dynion ;
'Rwyf finnau wrth gynnyg yn wylaidd fy nghalon
Lawrwyfen at lawrwyf byth-wyrddion ei goron,
Mal seren wan-lewyrch yn wybren llenyddiaeth
Yn talu ei theyrnged i haul mawr barddoniaeth."

ANGHYSONDEB BEIRDD MEWN MARWNADAU.

" Y mae Caledfryn yn llygad ei le wrth ddweud nad yw marwolaeth y dynion enwocaf yn effeithio ar natur. Y mae pob peth yn myned ymlaen fel arferol, gan nad pwy a symudir i'r bêdd.

" Felly yn gymmwys, pe bawn yn galw ar holl anian i gydymdeimlo â mi ar farwolaeth cyfaill, fe fyddai hyny yn ddigon naturiol, ond ar ol y cwbl, bydd yr haul yn tywynnu, y cymylau yn gwgu, a'r gwynt yn chwibianu, yn union yr un modd ar farwolaeth bardd, ac ar enedigaeth cath. Dyma lle mae galarebwyr Cymru yn camlwybro. Dywedant fod yr haul yn gwyneb-lwydo, y cymylau yn hidlo dagrau, y gwynt yn llefain, a chant o bethau cyffelyb ar farwolaeth bardd neu wrâch."

TAFOL Y BEIRDD.

"Da iawn, Cynddelw! Dylai ei draethawd goleufarn gael canmoliaeth a chefnogaeth Beirdd Cymru. Dyna lyfr na fyddaf byth yn blino wrth ei ddarllen, a dyna'r *compliment* mwyaf a allaf gynnyg i Cynddelw.

Y BEIRDD.

"Yr ydym ni, y beirdd, yn lled debyg i wenyn. Rhaid i ni gael casglu a thrysori mêl, neu golynu; ac fel y mae gwaethaf y drefn, ni waeth genym fymryn pa un o'r ddau a wnelom. Felly y mae hi wedi bod o'r dechreu, felly mae hi yn awr, ac felly bydd hi byth.

BARDDONIAETH.

"Goddefwch i mi roddi fy marn ar Farddoniaeth. Pa beth yw Barddoniaeth? 'Meddyliau ar dân,' medd un, 'Gwirionedd wedi ei ysprydoli gan deimlad,' medd arall; Meddyliau tlysion mewn iaith alawaidd, neu feddyldrychau godidog mewn iaith ardderchog, meddwyf finau; appeliad uniongyrchol at y galon; gwefrdan i gynhyrfu'r enaid; gardd flodeuog i swyno y llygaid; melus saig i'r gwefusau; hudlewyrch a grasusbeth i ddenu'r serchiadau; doethineb wedi ei gwisgo â sidanau. Dyna beth yw Barddoniaeth. A hefyd paentio pictiwrs byw efo geiriau disglaer, mal y bydd yr arlunydd yn paentio efo lliwiau, pob rhan yn drwsiadus, cywrain a chelfyddbwyll. Y mae eisiau sylwedd, ystwythder, pereidd-dra, a miwsig mewn barddoniaeth, enaid mewn pob meddylrith, a disglaerdeb ymhob llinell.

"Fe ddywedodd rhywun wrth fardd fel hyn:—'Pw, pw, mae pob prydydd yn ffŵl.' 'Wel, yn siwr,' ebai'r bardd, 'efallai fod hyny yn ddigon gwir, ond yr ydych chwi eich hun yn ddigon o brawf nad ydyw pob ffŵl ddim yn brydydd.'"

RHAI O LINELLAU GOREU TALHAIARN O'I GYFROL GYNTAF.

BEDDARGRAPH :—

"Ofer yw balchder y byd—ac ofer
Ei gyfoeth a'i wynfyd;
O ŵydd angau ni ddiengyd—
Yr iach ei fron na'r ucha'i fryd."

GWENO :—

"Caraf di, fy lili lân,
Main dy goes, mwyn dy gusan.
Molaf dy gusan melus,
Dere, Gwen, a dyro gus."

AR OL MERCH IEUANC :—

"Y fûn liwus, fain, lawen,
Y fenyw gu, fwyna'i gwên;
Trwm yw sôn wrth farddoni
Mai llŵch yw ei harddwch hi."

AR OL CYFAILL :—

"Pa fodd y gwywodd y gŵr?
Pa fodd y cwympodd campwr?
Carwr ei wlad fâd a fu,
A churiodd wrth ei charu."

"Dirgel yw dy dawel dŷ,
A di-wawl yw dy wely:
Ni wna llais na dyfais dyn,
Na gwenau haul y Gwanwyn,
Adfywio nerth dy fywyd
O waelod bêdd i wel'd byd."

Gwagedd yw'r cwbl :—

" Pobpeth syrth i byrth y bêdd,
Yn dawel yn y diwedd ;
A rhwydir pob anrhydedd,
A hoen y byd yn y bêdd."

Y Beirdd :—

" Maent hwy, yn gwybod mwy, na gwybed mân."

Ei Bertrwydd Cynganeddol :—

" Myn cebyst, a myn caban,
Myn ci brŷch, a myn cyw brân ;
Myn Siân bert, a myn Siôn bwt,
Myn crîn libin a'i labwt."

Y mae detholiad Talhaiarn o hên Benillion Cymreig, yn ei ail gyfrol, yn rhagorol dros ben, yn cynwys y gemau mwyaf difyr mewn iaith. A'i Ryddiaith wedyn yn yr un gyfrol, y tu hwnt i ddisgrifiad mewn doniolwch a difyrwch, dan y pennodau " Geirdarddiad," " Cymraeg Glân Gloyw," " Y Cloc a'r Badell Ffrio," " Y Drol a'r Dâs Wair," &c. Ac er fod ei Drydedd Gyfrol yn llai ei maint, mae yr un mor awgrymiadol ei chynwysiad. Mae ei ysgrifau ar y Mesurau Barddonol yn neillduol o ddoniol a chyrhaeddgar, a cheir ei feirniadaeth ar " Emrys " gydag Awdlau Abertawe ymysg y pethau mwyaf tuchanol a ddarllenwyd erioed, a theimlir trwy'r cwbl fod " Tàl " yn feistr perffaith ar yr hyn a gymer mewn llaw.

Wrth gloi i fyny ein sylwadau am y gwrthddrych talentog, gellir dweud fel y dywedasom rywbryd am rywun arall :—

" Llefara'n hîr trwy'r llyfrau wnaeth—heb os,
Caiff o hyd aros, mewn coffadwriaeth."

535894

LCelt
T1453
.Yjo

Talhaiarn (pseud.)
Jones, R
Talhaiarn.

NAME OF BORROWER.

UNIVERSITY OF TORONTO
LIBRARY

DO NOT
REMOVE
THE
CARD
FROM
THIS
POCKET